

CALON TÂN



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service




CRYNODEB
BLYNYDDOL

UCHAFBWYNTIAU 2024

CYNNWYS

IONAWR	4
CHWEFROR	6
MAWRTH	8
EBRILL	10
MAI	12
MEHEFIN	14
GORFFENNAF	16
AWST	18
MEDI	20
HYDREF	22
TACHWEDD	24
RHAGFYR	26



CYFARCHION Y TYMOR GAN EIN PRIF SWYDDOG TÂN

Wrth i flwyddyn arall ddirwyn i ben, hoffwn fanteisio ar y cyfle i fyfyrto ar waith a chyflawniadau anhygoel Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru trwy gydol 2024. Mae'r rhifyn hwn o Calon Tân yn mynd â chi ar daith o fis i fis, gan arddangos yr ymroddiad, y gwytnwch a'r ysbryd cymunedol sy'n llunio ac yn diffinio ein Gwasanaeth.

O heriau'r gaeaf i lwyddiannau'r haf, a'r partneriaethau a'r mentrau sydd wedi cryfhau ein cenhadaeth, mae pob stori ar y tudalennau hyn yn dyst i waith caled ein criwiau gweithredol, staff yr ystafell reoli, staff corfforaethol a phartneriaid. Mae'r ymrwymiad diwyro i gadw ein cymunedau'n ddiogel yn rhywbeth yr ydym yn ei nodi, ac nid yw eleni wedi bod yn eithriad.

Mae diolch arbennig yn mynd i bawb sy'n gweithio dros gyfnod yr ŵyl, gan sicrhau bod cymorth bob amser wrth law i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Mae eich aberth, yn enwedig ar yr adeg hon o'r flwyddyn, yn ymgorffori gwir ysbryd ein Gwasanaeth.

Wrth i ni baratoi i groesawu 2025, gadewch i ni gymryd eiliad i ddathlu'r cerrig milltir rydyn ni wedi'u cyrraedd gyda'n gilydd a'r bywydau rydyn ni wedi cael effaith arnynt. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein llwyddiannau eleni—mae eich ymdrechion yn parhau i wneud gwahaniaeth go iawn.

Gan ddymuno Nadolig diogel, hapus a heddychlon i chi i gyd.

Roger Thomas
Prif Swyddog Tân KFSM



EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.



#EichGTACGC

#YourMAWWFRS

RHOI CIT DIFFODD TÂN I YNYSOEDD PHILIPPINES

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi rhoi oddeutu 4,500 o eitemau o offer diffodd tân nad oeddent yn cael eu defnyddio mwyach i ddiffoddwyr tân yn ninas Manila yn Ynysoedd Philippines, trwy Operation Florian.

Mae [Operation Florian](#) wedi cael ei enwi ar ôl Sant Florian, nawddsant y diffoddwyr tân, ac fe'i sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig ym 1995. Mae'r elusen yn hyrwyddo amddiffyn bywyd ledled y byd trwy ddarparu offer a hyfforddiant i wella galluoedd diffodd tân, cymorth cyntaf ac achub. Ar ôl mynd ag offer a gyfrannwyd i wledydd ledled y byd, mae timau Operation Florian yn aros gyda chriwiau tân

lleol i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r hyn a ddarparwyd i'r eithaf.



ERTHYGL LLAWN

DIGWYDDIAD ⚠️

Tân Mewn Tafarn yn Niwngwl

Ymatebodd criwiau i dân o fewn adeiladu deulawr yn mesur tua 15 metr wrth 30 metr a'i defnyddiwyd fel tafarn gyda llety uwchben.

DARLLENWCH MWY



ANGYLION TÂN YR ANTARCTIG YN CWBLHAU EU HANTUR RYFEDDOL

Mae'r diffoddwyr tân Rebecca Openshaw-Rowe o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Georgina Gilbert o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cwblhau antur ryfeddol i'r Antarctig.

Cychwynnodd Rebecca a Georgina – neu Angylion Tân yr Antarctig, fel maen nhw'n cael eu hadnabod – ar eu hantur ar ddechrau Tachwedd 2023 gan gyrraedd pen eu taith ar Ionawr 12 2024. Maen nhw wedi cerdded a sgïo dros 1,200km mewn 52 diwrnod, o arfordir Antarctica i Begwn y De – sy'n cyfateb i 29 marathon!

Angylion Tân yr Antarctig yw'r bobl gyntaf erioed i gwblhau'r llwybr yr oedden nhw wedi'i ddewis ac



nid oedd unrhyw un yn eu tywys na'u cynorthwyo wrth iddyn nhw dynnu eu cyflenwadau eu hunain a'u slediau offer – pob un yn pwysu dros 100kg. Yn ogystal â chwmpasu'r pellter anhygoel hwn, maen nhw wedi gorfod dioddef amodau eithafol y lle oeraf ar y Ddaear – gyda'r tymheredd yn cyrraedd mor isel â -30°C a chyflymder gwynt o hyd at 60mya.

Cymerodd eu hantur dros bedair blynedd o gynllunio a hyfforddi gofalus, ac un o'r prif nodau oedd herio stereoteipiau rhywedd ac ysbrydoli cenedlaethau o fenywod yn y dyfodol.

Mae Rebecca a Georgina yn fodelau rôl gwych i fenywod a merched ddilyn gyrfa ym mha bynnag faes y maen nhw'n ei ddewis ac maen nhw wedi rhoi cyngor a chymorth i fenywod sy'n mynd drwy'r broses recriwtio diffoddwyr tân.

Mae pawb yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn llongyfarch Rebecca a Georgina ar eu llwyddiant anhygoel.



CHWEFROR

DIWRNOD DANGOS A DWEUD LLANDEILO YN LLWYDDIANT YSGUBOL!

Cynhaliodd Gorsaf Dân Llandeilo y cyntaf o dri diwrnod recriwtio 'Dangos a Dweud' ddydd Sadwrn 10 Chwefror.

Yn ystod y dydd, cafodd darpar recriwtiaid newydd gyfle i gwrdd â'r criw a thrafod y gofynion a'r broses fynediad ar gyfer dod yn ddiffoddwr tân ar alwad. Cafodd y rhai a oedd â diddordeb y cyfle i gael profiad o ddefnyddio rhai o'r offer Prawf Pwynt

Mynediad, a chael cyngor diogelwch hanfodol gan Elinor Goldsmith, Swyddog Addysg Ysgolion GTACGC.

Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr, gyda phum darpar ymgeisydd newydd yn mynegi diddordeb mewn ymuno â'r Gwasanaeth. Daeth Maer Llandeilo, Christoph Fischer, i ymweld â'r orsaf hyd yn oed!

Diolch yn fawr iawn i'r Rheolwr Gwylfa David Lewis a gweddill y criw yng ngorsaf Llandeilo, gan gynnwys Dan Ward ac Emyr Davies, Swyddogion Cyswllt yr Orsaf, ac Elinor Goldsmith a'r cyn-Reolwr Gwylfa John Herman am eu cymorth trwy gydol y dydd.



DIFFIBRILWYR CYMUNEDOL I ACHUB BYWYDAU WEDI'U GOSOD MEWN GORSAFOEDD TÂN

Mae'r gwaith o osod diffibrilwyr cyhoeddus (PAD) mewn 23 o Orsafoedd Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi'i gwblhau - ac mae hyn nawr yn golygu bod pob un o'n gorsafedd tân wedi'u lleoli o fewn 500 metr i ddiffibriliwr cyhoeddus.

Buom yn rhannu rhai o'n PADs newydd ar draws y cyfryngau cymdeithasol i annog y cyhoedd i fod yn fwy ymwybodol o defibrilwyr a dysgu bod diffibrilwyr yn syml ac yn ddiogel i'w defnyddio, heb fod angen unrhyw hyfforddiant blaenorol i weithredu un. Pan fyddwch yn deialu 999, bydd y derbynnydd galwad yn rhoi gwybod i chi ble mae'r diffibriliwr cofrestredig agosaf a chod i agor y cabinet os oes angen.

Gwnaed hyn yn bosibl trwy bartneriaeth gydag Achub Bywyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST), a nododd 23 o Orsafoedd Tân GTACGC nad oeddent yn agos at ddiffibriliwr cyhoeddus.

#DEFIBUARY



ERTHYGL LLAWN

DIGWYDDIAD ⚠️

Tân Mewn Tŷ ym Min y Môr

Ddydd Mercher, Chwefror 21ain, cafodd criwiau Llanelli, Y Tymbl, Gorseinon, Pontiets, Caerfyrddin a Threforys eu galw i ddigwyddiad ym Min y Môr yn Llanelli.

DARLLENWCH MWY

SEREMONI RADDIO A GORYMDAITH: DIFFODDWYR TÂN AMSER CYFLAWN DIWEDDARAF

Ddydd Iau, 21 Mawrth, cynhaliwyd Seremoni Raddio a Gorymdaith i nodi Cwblhau'r Cwrs Hyfforddi gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ar gyfer y garfan ddiweddaraf o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn.

Roedd y digwyddiad, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hyfforddi Earlswood y Gwasanaeth, yn gyfle i ddatlu ac i fyfrio ar lwyddiannau anhygoel y 12 unigolyn - sy'n cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel Carfan 01/24 - sydd wedi cwblhau eu cwrs trosi diffoddwyr tân Ar Alwad i ddiffoddwyr tân Amser

Cyflawn yn ddiweddar, a hynny yng nghwmni eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Yn dilyn proses recriwtio helaeth lle cyflawnwyd amrywiaeth o heriau fel rhan o broses ddethol drylwyr, dechreuodd Carfan 01/24 ar eu cwrs preswyl wyth wythnos ar 25 Ionawr. Ers hynny, mae pob un ohonynt wedi datblygu'r sgiliau a'r galluoedd cychwynnol sydd eu hangen i gyflawni eu rolau newydd fel Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn.

Roedd y Seremoni'n cynnwys Gorymdaith y Recriwtiaid, pan ymunodd Gosgordd Faner'r Gwasanaeth â nhw, ac Archwiliad o'r Recriwtiaid gan y Prif Swyddog Tân Roger Thomas, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Cynghorydd Gwynfor Thomas a'r Pennaeth Cyflenwi Hyfforddiant, Stuart Bate. Yna cynhaliwyd nifer o Arddangosfeydd Iard Ymarfer i ddangos y sgiliau ymateb brys y mae pob aelod o'r Garfan wedi'u datblygu yn ystod eu hyfforddiant, ac yn dilyn hynny cyflwynwyd y Tystysgrifau a'r Gwobrau.



CHWARAEWYR Y GWEILCH YN NEWID Y CAE RYGBI AM Y CAE TÂN AM DDIWRNOD!

Ymunodd aelodau o dîm Rygbi Hŷn y Gweilch â ni yng Nghyfleuster Hyfforddi Earlswood ar gyfer Diwrnod Profiad diffoddwr tân.

Cysylltodd Cymdeithas Chwaraewyr Rygbi Cymru (WRPA) â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch eu Rhaglen Datblygu Personol (PDP) sy'n helpu chwaraewyr i gael cydbwysedd da o ran chwaraeon/ffordd o fyw yn ystod eu gyrfaedd, a gan wneud hynny, yn y pen draw, mae'n gwneud y trawsnewidiad o'u gyrfa chwarae broffesiynol ac i gyflogaeth yn y dyfodol mor ddiraffferth â phosibl.

ERTHYGL LLAWN



DIGWYDDIAD ⚠

Achub o Lifogydd yn Abertawe

Ddydd Mawrth, Mawrth 13eg, cafodd criwiau o Orsafoedd Tân Llanelli a Chanol Abertawe eu galw, yn dilyn adroddiadau bod cerbyd yn sownd ar Heol Pont y Cob yn Abertawe.



DARLLENWCH MWY

EBRILL

DATHLU 150 MLYNEDD O'R GWASANAETH TÂN AC ACHUB YN Y DRENEWYDD

Nododd y criw yng Ngorsaf Dân y Drenewydd garreg filltir ryfeddol yn eu hanes, trwy ddathlu 150 mlynedd o'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn y dref.

Ddydd Sadwrn, 6 Ebrill, cafodd digwyddiad dathlu arbennig ei gynnal yn yr Orsaf Dân a ddaeth ag aelodau presennol a chyn-aelodau staff y Gwasanaeth ynghyd, yn ogystal â gwesteion gwadd. Agorodd Prif Swyddog Tân ac Achub Gwasanaeth

Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Roger Thomas, y digwyddiad a siaradodd am hanes y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Drenewydd a sut y cafodd ei greu.

Ym mis Ebrill 1874, cafodd Brigâd Dân Wirfoddol y Drenewydd ei chreu, ac mae sawl newid wedi bod i'r strwythur ers hynny. Cafodd Cyd-wasanaeth Tân Sir Ddinbych a Sir Drefaldwyn ei ffurfio yn 1948 ar ôl i'r Gwasanaeth Tân Cenedlaethol drosglwyddo rheolaeth tân i wasanaethau sirol a bwrdeistrefi sirol rhanbarthol. Ym 1974, aeth pob un o'r Cynghorau Sir a oedd newydd gael eu sefydlu ati i gynnal eu Gwasanaethau Tân ac Achub eu hunain ac ym 1996 cafodd Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg eu huno gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 i greu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.



ERTHYGL LLAWN



DIGWYDDIAD ⚠

Tân Mawr yn Ystad Ddiwydiannol Waterston

Am 11.09am ddydd Llun, Ebrill 15, galwyd criwiau Aberdaugleddau, Doc Penfro, Arberth, Abergwaun, Caerfyrddin, Dinbych y Pysgod a Hwlfordd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) i ddigwyddiad mewn safle masnachol yn Ystad Ddiwydiannol Waterston, Aberdaugleddau.

DARLLENWCH MWY

DULL NEWYDD WEDI'I GYNLLUNIO AR GYFER YMATEB I ALWADAU LARYMAU TÂN AWTOMATIG

Lawnsiwyd dull newydd o ymateb i alwadau Larymau Tân Awtomatig (LTA), ar 1 Gorffennaf, 2024.

Nod y fenter strategol hon yw sicrhau'r dyraniad adnoddau gorau posibl, lleihau aflonyddwch diangen, a gwella effeithlonrwydd cyffredinol yn ein hymateb brys.

Mae Larymau Tân Awtomatig (LTA) wedi'u cynllunio i ganfod presenoldeb mwg neu fflamau a rhybuddio unigolion am beryglon tân posibl. Ond, mae ystadegau'n dangos bod mwyafrif y signalau o'r systemau hyn mewn gwirionedd yn alwadau ffug, sy'n aml yn deillio o fwg coginio, llwch neu ddiffyg cynnal a chadw.

O ganlyniad i hyn, o 1 Gorffennaf, ni atebir GTAGC i alwadau LTA mwyach, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol gan gynnwys safleoedd preswyl, cartrefi nyrsio a gofal, a safleoedd sy'n destun hysbysiadau gwahardd neu orfodi diogelwch tân.

DARLLENWCH MWY



GWYLIWCH EIN FIDEO

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH ER MWYN DIOGELU BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD RHAG TANAU

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi bod yn gweithio'n agos gyda Wardeniaid o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn ogystal â thirfeddianwyr a phorwyr, i greu rhwystrau tân cyn misoedd yr haf.

Bob blwyddyn mae tanau'n gyfrifol am ddinistrio miloedd o hectarau o diroedd cefn gwlad, manau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt, ac yn ddiweddar bu aelodau o dimau GTACGC a Bannau Brycheiniog yn creu rhwystrau tân yn ardal y Mynydd Du.

Mae rhwystrau tân yn elfennau hanfodol wrth amddiffyn bywyd gwyllt a chefn gwlad rhag tanau gwyllt. Bylchau neu ardaloedd o lystyfiant wedi'u clirio sydd wedi'u lleoli'n strategol er mwyn atal tân rhag lledaenu yw'r rhwystrau tân. Trwy greu rhwystr, mae rhwystrau tân yn helpu i atal tanau gwyllt rhag difa ardaloedd helaeth o dir, a thrwy hynny maen nhw'n diogelu cynefinoedd bywyd gwyllt a lleihau difrod i'r amgylchedd naturiol.

Nid yn unig maen nhw'n arafu lledaeniad tanau gwyllt, mae rhwystrau tân hefyd yn bwyntiau mynediad i ddiffoddwyr tân, gan ganiatáu iddynt reoli tanau yn well a'u diffodd cyn iddynt waethygu.



GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN RHAN O GONFOI MWYAF ERIOED GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB Y DU

Ddydd Mawrth, Ebrill 23, dechreuodd confoi o offer a cherbydau achub bywyd y gwasanaethau tân ac achub, wedi'i gydlynu gan Fire Aid, ar ei daith i Wcráin i ddanfôn yr offer hanfodol hwn i Ddiffoddwyr Tân yn Wcráin.

oedd maint y confoi yn ddigynsail, gan ei fod yn cynnwys 33 o gerbydau tân ac achub, dau gerbyd peirianwyr a dros 2,800 o ddarnau o offer a roddwyd gan Wasanaethau Tân ac Achub y DU ac a gefnogwyd gan y Swyddfa Gartref.

Mae gwasanaethau tân ac achub Wcráin wedi cael eu dinistrio i raddau helaeth gan effaith y rhyfel ac mae'r gofynion arnynt wedi cynyddu'n aruthrol.



DIGWYDDIAD ⚠️

Tân mewn Llety Myfyrwyr yng Nghanol Dinas Abertawe

Dydd Sul, 6 Mai, cafodd criwiau Gorllewin Abertawe, Canol Abertawe, Treforys, Port Talbot, Gorseinon, Castell-nedd, Pontardawe, Pontarddulais a Chaerfyrddin eu galw i ddigwyddiad ar New Cut Road yng nghanol dinas Abertawe.

DARLLENWCH MWY





PRIF SWYDDOG TÂN YN DERBYN MEDAL GWASANAETH TÂN Y BREIN

Mae Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Roger Thomas, wedi'i gydnabod fel rhan o restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin am ei ymrwymiad i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Cyhoeddwyd ar 15 Mehefin 2024, y bydd y Prif Swyddog Tân Thomas yn derbyn Medal Gwasanaeth Tân y Brenin sy'n cael ei ddyfarnu am wasanaeth nodedig.

Dyweddodd y Prif Swyddog Tân Thomas;

"Rwy'n falch iawn o dderbyn y wobr anrhydeddus hon. Rwy'n cydnabod bod y wobr hon yn dyst i'r bobl anhygoel sy'n gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - ein staff gweithredol sy'n peryglu eu bywydau er mwyn sicrhau diogelwch eraill, ein staff yn yr Ystafell Reoli sy'n derbyn galwadau 999 ac yn trefnu adnoddau,

swyddogion atal ac amddiffyn sy'n lleihau risg yn ein cymunedau a'n staff corfforaethol sy'n cefnogi ein swyddogaethau craidd. Rwy'n hynod falch o weithio i sefydliad sydd mor uchel ei barch."

"Hoffwn gydnabod fy nheulu hefyd. Maen nhw hefyd wedi gwneud aberth sylweddol i fy nghefnogi i'n bersonol ac yn broffesiynol."



HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU 2024

Ar Fehefin 1, ymgasglodd Diffoddwyr Tân o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ym Marina Abertawe i gymryd rhan yn [Her Diffoddwyr Tân Cymru](#), sy'n rhan o ras ranbarthol [Her Diffoddwyr Tân Prydain](#).

Mae Her Diffoddwyr Tân Cymru yn cael ei threfnu gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), ac mae'n helpu i godi arian pwysig ar gyfer [Elusen y Diffoddwyr Tân](#), sy'n cefnogi lles meddyliol ac iechyd corfforol yr holl aelodau o gymuned diffoddwyr tân y DU sy'n gwasanaethu ac sydd wedi ymddeol.

Cynhaliwyd y digwyddiad, a oedd wedi gwerthu allan mewn 8 awr, sef yr amser cyflymaf erioed, mewn lleoliad newydd eleni, sef Sgwâr Dylan Thomas, Marina Abertawe. Roedd y Sgwâr yn llawn o wylwyr o'r dechrau i'r diwedd trwy gydol y dydd. Yn ffodus, roedd yr haul yn tywynnu, a oedd yn ei gwneud yn wych i wylwyr ond hefyd yn llawer mwy anodd i'r cystadleuwyr.



ERTHYGL LLAWN

ERTHYGL LLAWN

DIGWYDDIAD ⚠

Diffoddwyr Tân Aberhonddu yn Achub Oen

Dydd Mercher, Mehefin 19eg, bu'r criw o Orsaf Dân Aberhonddu yn achub oen oedd wedi mynd yn sownd mewn ffos 6 troedfedd o ddyfnder yn Llanfaes, Aberhonddu.

DARLLENWCH MWY



HER CADETIAID TÂN 2024

Ddydd Sul yr 21ain o Orffennaf, ymgasglodd timau o bobl ifanc o bob rhan o Gymru yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd ar gyfer Her flynyddol y Cadetiaid Tân.

Bu 12 tîm o Dde Cymru ac un tîm o Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn cystadlu mewn heriau yn ymwneud â diffodd tanau i ennill clod enillwyr Her Cadetiaid Tân – ac roedd y gystadleuaeth yn frwd o'r cychwyn cyntaf.

Mae'r rhaglen Cadetiaid Tân yn rhoi cipolwg unigryw i bobl ifanc i weithio o fewn gwasanaeth brys. Maent yn cael eu trin fel Ymladdwyr Tân ifanc dan hyfforddiant, gan ddysgu'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen arnynt yn unol â'u dyletswydd. Mae hyn yn digwydd drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu gorsafoedd tân lleol mewn nosweithiau ymarfer wythnosol gyda'u hunedau. Yna rhoddir y sgiliau hyn ar brawf bob blwyddyn yn Her y Cadetiaid.

Roedd yr heriau'n cynnwys:

- Gwiriad Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref
- Cydosod Offer
- Her Trawma
- Llwybrau cropian offer anadlu
- Gweithgareddau Tîm
- Cyflwyniadau
- Driliau Cyfunol

Er bod y meini prawf yn amrywio o dasg i dasg, barnwyd timau ar eu cyflymder cyffredinol, sgiliau cyfathrebu, anogaeth gan eu cyd-chwaraewyr, cyflwyniad, gwaith tîm, a thechneg gyffredinol.



DIFFODDWYR TÂN AMSER CYFLAWN DIWEDDARAF Y GWASANAETH

Ddydd Iau, Gorffennaf 25ain, cynhaliwyd Seremoni Raddio a Gorymdaith i nodi Cwblhau'r Cwrs Hyfforddi gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer y garfan ddiweddaraf o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn.

Roedd y digwyddiad, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hyfforddi Iarll y Coed y Gwasanaeth, yn gyfle i ddatlu ac i fyfyrio ar lwyddiannau anhygoel y 12 unigolyn - sy'n cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel Carfan 02/24.

Maen nhw wedi cael eu hyfforddi ar sut i ymateb i amrywiaeth o argyfyngau mewn amrywiaeth o

sefyllfaoedd, fel achub o ddŵr, gweithio ar uchder, diogelu'r amgylchedd a mwy. Maen nhw hefyd wedi gweithio'n agos gyda Thimau Diogelwch Cymunedol a Diogelwch Tân i Fusnesau'r Gwasanaeth i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach ym maes atal tanau, gan eu galluogi i integreiddio'n llwyr yn ein Gorsafoedd Tân Cymunedol.

Roedd y Seremoni'n cynnwys Gorymdaith y Recriwtiaid, pan ymunodd [Gosgordd Faneri Seremonïol y Gwasanaeth](#) â nhw, ac Archwiliad o'r Recriwtiaid gan y Prif Swyddog Tân Roger Thomas, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Cyngorydd Gwynfor Thomas a'r Rheolwr Gwylfa ac Hyfforddwr, Phil O'Shea. Yna cynhaliwyd nifer o Arddangosfeydd Iard Ymarfer i ddangos y sgiliau ymateb brys y mae pob aelod o'r Garfan wedi'u datblygu yn ystod eu hyfforddiant, ac yn dilyn hynny cyflwynwyd y Tystysgrifau a'r Gwobrau.



DIGWYDDIAD ⚠

Tân mewn Ysgubor yn Eglwysrwr

Dydd Iau, Gorffennaf 11, cafodd criwiau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o Orsafoedd Tân Crymch, Aberteifi ac Aberdaugleddau eu galw i ddigwyddiad yn Eglwysrwr.

DARLLENWCH MWY



YMARFER HYFFORDDI AMLASIANTAETHOL YM MAES AWYR CANOLBARTH CYMRU YN Y TRALLWNG

Dydd Mawrth, 30 Gorffennaf, cynhaliwyd ymarfer hyfforddi ar raddfa fawr ym Maes Awyr Canolbarth Cymru yn y Trallwng, wedi'i drefnu gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC).

Roedd yr ymarfer hyfforddi, sef 'Edrych tua'r Awyr' neu 'Look to the Sky', yn cwmpasu ymateb amlasiantaethol gan gynnwys Heddlu Dyfed-Powys, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, staff y maes awyr a nifer o griwiau GTACGC.

Roedd yr ymarfer yn gyfle i efelychu senario brys realistig a oedd yn cynnwys gwrthdrawiad rhwng dwy awyren mewn sioe awyr, a'r rheini'n cwmpo i'r llawr wedyn yn y man parcio a'r man i wylwyr. Roedd yr efelychiad o'r argyfwng yn cynnwys defnyddio sawl cerbyd ymateb brys a phersonél, sefydlu canolfannau rheoli a chynnal ymgyrchoedd chwilio ac achub.



ERTHYGL LLAWN



DIGWYDDIAD ⚠

Tân ar Bier y Mwmbwls

Dydd Sadwrn, Awst 17eg, cafodd criwiau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o Orsafoedd Tân Gorllewin Abertawe, Canol Abertawe, Treforys, Gorseinon, Pontarddulais a Phort Talbot eu galw i ddigwyddiad ar Bier y Mwmbwls.



DARLLENWCH MWY



STAFF GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN CWBLHAU HER TRI CHOPA CYMRU!

Ym mis Medi, 7 Medi, cymerodd 14 aelod o staff Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ran yn Her Tri Chopa Cymru, gan gyrraedd copaon Pen y Fan, yr Wyddfa a Chader Idris o fewn 24 awr.

Gyda chymysgedd o staff gweithredol a staff eraill, roedd yr her yn golygu cerdded am bellter o 17 milltir ac esgyniad o 2,334 metr, i gyd er mwyn codi arian hanfodol ac ymwybyddiaeth ar gyfer [Elusen y Diffoddwyr Tân](#) a [Swyn y Gwynt - Elusennau Iechyd Hywel Dda](#).

Profodd yr her eu galluoedd ac er sawl rhwystr, cwblhaodd y tîm cyfan yr her mewn amser clodwiw o 17 awr ac maent wedi codi £789 ar gyfer eu dewis elusennau.

Fe wnaeth y Diffoddwr Tân Josh Herman wthio'r her gam ymhellach drwy wisgo cit diffodd tân llawn ac offer anadlu ar ei gefn am y daith gyfan!



ERTHYGL LLAWN

Y GWASANAETH YN CODI £166,297 AR GYFER ELUSEN Y DIFFODDWYR TÂN!

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi codi swm anhygoel o £166,297 ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân!

Codwyd yr arian hwn o ganlyniad i ymdrechion anhygoel staff gweithredol a chymorth y Gwasanaeth, sydd wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddiwyddiadau a heriau, golchfeydd ceir a Diwrnodau Agored codi arian.

Mae [Elusen y Diffoddwyr Tân](#) yn cynnig cymorth gydol oes i les meddyliol, corfforol a chymdeithasol Diffoddwyr Tân sy'n gwasanaethu ac wedi ymddeol, eu teuluoedd a phersonél eraill y Gwasanaethau Tân ac Achub. Fe'i sefydlwyd ym 1943, ac mae'r Elusen yn cael ei hariannu drwy roddion a digwyddiadau codi arian Gwasanaethau Tân ac Achub y DU, ac mae'n adnodd hanfodol i'r rhai sy'n cysegru eu bywydau i ddiogelu eraill.



ERTHYGL LLAWN

DIGWYDDIAD ⚠

Achub ci yng Ngorllewin Cymru

Ddydd Mawrth, Medi 10fed, achubodd criw Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o Orsaf Dân Hwlfordd Doby, sef ci dwy oed a oedd wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth ei berchennog tra ar daith gerdded ac aeth yn sownd ar ochr arall cors.



DARLLENWCH MWY

HYDREF

YCHWANEGU PECYNNAU ACHUB BYWYD AT UNEDAU DIFFIBRILIWR

Ym mis Hydref, croesawodd y criw yng Ngorsaf Ddan Pontardawe Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg, Melanie James YH, i lansio'r ffaith bod pecynnau Rheoli Gwaedu Critigol (CBC) yn cael eu cyflwyno ar sawl un o safleoedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC).

Yn dilyn cyflwyno diffibrilwyr mynediad cyhoeddus (PAD) i achub bywydau mewn 23 o Orsafoedd Tân yn gynharach eleni, mae saith pecyn rheoli gwaedu wedi'u hychwanegu at rai o'r cypyrddau diffibriliwr.

Mae'r pecynnau wedi'u cynllunio i fod yn hawdd i'w defnyddio ac maent yn cynnwys offer o ansawdd milwrol - fel menig, rhwymynnau a rhwymyn tynhau - a'r cyfarwyddiadau sydd eu hangen i reoli'r colli gwaed ac atal person rhag gwaedu i farwolaeth. Gall person farw mewn cyn lleied â thri i bum munud yn sgil colli gwaed.

Mae'r fenter yn cael ei harwain gan Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg, Melanie James YH, mewn partneriaeth â [Heartbeat Trust UK](#) a [Sefydliad Daniel Baird](#). Yn ddiweddar, cafwyd grant o £10,000 gan Gyngor Abertawe i [ariannu 100 o becynnau](#) i'w hychwanegu at rwydwaith presennol Abertawe o ddiffibrilwyr mynediad cyhoeddus.

ERTHYGL LLAWN



MENYWOD YN Y GWASANAETH TÂN CYMRU 2024

Roedd Menywod yn y Gwasanaeth Tân yn ôl unwaith eto gyda'r rhaglen ddatblygu ar gyfer eleni. Cynhaliwyd digwyddiad rhanbarthol Cymru gyfan yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd, a

dyma'r tro cyntaf i ddigwyddiad fel hyn gael ei gynnal yng Nghymru, a hynny gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Nod y digwyddiad oedd ysbrydoli menywod i arddangos ac annog modelau rôl a chreu rhydwraith cefnogol ar gyfer dilyniant a datblygiad yn y dyfodol.

ERTHYGL LLAWN



DIGWYDDIAD ⚠️

Gwrthdrawiad Trenau ger Llanbryn-mair

Ddydd Llun, Hydref 21, cafodd criwiau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o Orsafoedd Tân y Drenewydd a Machynlleth eu galw i ddigwyddiad ger Llanbryn-mair ym Mhowys.



DARLLENWCH MWY

TACHWEDD

DIFFODDWR TÂN YN CYRRAEDD COPA AMA DABLAM

Mae Rhys Fitzgerald, sef Diffoddwr Tân Ar Alwad o Orsaf Dân Cydweli, wedi cyrraedd copa Ama Dablam.

I baratoi ar gyfer dringo i gopa Mynydd Everest y flwyddyn nesaf, mae Rhys yn cymryd rhan mewn sawl dringfa a her, gan gynnwys dringo'r 6,812 metr i gopa Ama Dablam, a leolir yn nwyrain mynyddoedd yr Himalaya yn Nepal.



ERTHYGL LLAWN



MAE'R GWASANAETH YN PARHAU I FOD YN YMRWYMEDIG I'R RHUBAN GWYN

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn parhau â'n cefnogaeth ymroddedig i roi terfyn ar drais

gan ddynion yn erbyn menywod trwy gefnogi White Ribbon UK.

[White Ribbon UK](#) yw'r brif elusen sy'n ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais yn erbyn menywod a merched.

Fel Gwasanaeth rydym wedi dangos ein cefnogaeth i roi terfyn ar yr holl drais gan ddynion yn erbyn menywod drwy gydnabod a chefnogi Ymgyrch y Rhuban Gwyn.

ERTHYGL LLAWN

DIGWYDDIAD ⚠

Tân Agored yn Llanisan-yn-Rhos a Achoswyd gan Dân Gwyllt

Nos Iau, Hydref 31ain, ymatebodd criw Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o Orsaf Dân Aberdaugleddau i dân agored ar draws tua 180 metr o wyneb clogwyn.

DARLLENWCH MWY



RHAGFYR

YMGYRCH NADOLIG #DATHLUDIOGEL

Ym mis Rhagfyr, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dod ag ysbryd y Nadolig i'n negeseuon am ymwybyddiaeth tân a diogelwch gyda lansiad #DathluDiogel—ymgyrch Nadolig wedi ei seilio ar y ffilm Nadolig boblogaidd 'Love Actually' i helpu i'ch cadw chi a'ch anwyliaid yn ddiogel dros yr ŵyl.

Trwy gydol mis Rhagfyr, byddwn yn ail-greu eiliadau eiconig o 'Love Actually' i gyfleu neges am

ddiogelwch, gan gynnig awgrymiadau ymarferol ar ddiogelwch yn y gegin, atal tân, gyrru yn y gaeaf, awgrymiadau a chyngor, i gyd yn llawn hwyl yr ŵyl. O "oleuo'r tymor" yn ddiogel i sicrhau bod eich cartref yn ddiogel rhag tân, #DathluDiogel yw eich ffynhonnell ar gyfer cyngor hanfodol ar ddiogelwch y Nadolig.

ERTHYGL LLAWN



LANSIO YMGYRCH 'LLOSGI I AMDDIFFYN'

Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn annog ffermwyr a thirfeddianwyr i #LosgilAmddiffyn cefn gwlad Cymru yn ystod y tymor llosgi.

Gan gydnabod bod tân wedi bod yn rhan o ecoleg naturiol yr ucheldir a rhai rhannau o'r iseldir ers miloedd o flynyddoedd, a'i fod hefyd yn un o'r dulliau rheoli tir hynaf a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, rheoli hela ac, yn fwy diweddar, rheoli cadwraeth bywyd gwyllt, mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn annog ffermwyr a thirfeddianwyr i weithio ar y cyd â'u Gwasanaeth Tân lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Undebau i sicrhau eu bod yn llosgi'n gyfrifol ac yn ddiogel.

Gall ffermwyr a thirfeddianwyr losgi grug, glaswellt, rhedyn ac eithin o 1 Hydref hyd at 15 Mawrth (hyd at 31 Mawrth ar ucheldir), ond rhaid iddyn nhw gael Cynllun Llosgi er mwyn sicrhau eu bod yn llosgi'n ddiogel.



Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board



ERTHYGL LLAWN

DIGWYDDIAD ⚠

Tân Angheuol Mewn Tŷ yn Nrefach

Ddydd Mercher, Rhagfyr 11eg, ymatebodd criwiau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o Orsafoedd Tân Tregaron, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberystwyth i dŷ deulawr, a oedd yr adeilad cyfan ar dân.



DARLLENWCH MWY



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Nadolig Diogel a Llawen
Safe and Merry Christmas



TANCGC.GOV.UK | MAWWFIRE.GOV.UK

EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.



#EichGTACGC

#YourMAWWFRS

#EichGTACGC
#YourMAWWFRS

www.tancgc.gov.uk

CYLCHGRAWN CALON TÂN - UCHAFBWYNTIAU 2024